**Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant**

1. **Amcanion y polisi**

- Effaith pa benderfyniad ydych chi'n asesu?

Gwella canlyniadau i blant a phobl ifanc anabl sy'n byw yng Nghymru

2. **Casglu tystiolaeth ac ymgysylltu gyda phlant a phobl ifanc**

Mae'r Tasglu Hawliau Pobl Anabl wedi gweithio'n agos gyda'r Uned Tystiolaeth Gwahaniaethau ar Sail Anabledd i edrych ar waith ymchwil a data, ac wedi cydweithio'n agos â swyddogion polisi eraill Llywodraeth Cymru i ailffocysu ac adnewyddu nifer o gamau gweithredu sy'n targedu ac yn mynd i'r afael â'r rhwystrau penodol a brofir gan blant a phobl ifanc anabl.

Sefydlwyd y Tasglu Hawliau Pobl Anabl, sy'n cael ei arwain gan weinidogion, ar ôl cyhoeddi adroddiad *Drws ar Glo: Datgloi Bywydau a Hawliau Pobl Anabl yng Nghymru ar ôl COVID-19.* Daeth y Tasglu â phobl â phrofiad bywyd, Swyddogion Llywodraeth Cymru a sefydliadau cynrychioladol at ei gilydd i nodi'r problemau a'r rhwystrau sy'n effeithio ar fywydau llawer o bobl anabl yng Nghymru. Sefydlwyd Gweithgor Plant a Phobl Ifanc i glywed gan sefydliadau sy'n gweithio'n agos gyda phlant a phobl ifanc anabl, yn ogystal ag adborth uniongyrchol gan bobl ifanc anabl. Yn ogystal, fe gynhaliom weithdy ar gyfer rhieni / gofalwyr plant anabl i glywed eu safbwyntiau.

Bydd y cynigion yn helpu i sicrhau bod buddiannau gorau plant a phobl ifanc anabl wrth galon pob penderfyniad. Mae gan y Cynllun Hawliau Pobl Anabl ddull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae nifer o gamau gweithredu'n ymwneud â phlant, gan gynnwys plant byddar yn cael mynediad cyfartal at ddarpariaeth addysg, gan gynnwys nifer digonol o athrawon sydd wedi'u hyfforddi mewn Iaith Arwyddion Prydain (BSL), yn ogystal â Llywodraeth Cymru yn adolygu llwybrau anacademaidd a llwybrau amgen (EOTAS), fel hyfforddiant galwedigaethol, prentisiaethau, interniaethau neu entrepreneuriaeth. Mae'r cynigion hyn yn ymwneud â'r blynyddoedd cynnar, cynradd, uwchradd, oedolion ifanc a phobl anabl sydd eisiau dychwelyd i fyd addysg pan yn oedolion.

Ni ragwelir unrhyw effeithiau negyddol o ganlyniad i'r cynigion.

Roedd allbwn y grŵp Plant a Phobl Ifanc yn cynnwys cyfranogiad gan blant. Ar ben hynny, cynhaliwyd cyfarfod is-grŵp i glywed profiadau bywyd a rhwystrau canfyddiadol rhieni / gofalwyr / eiriolwyr plant anabl yn unig.

Er mwyn goleuo allbynnau'r gweithgor Plant a Phobl Ifanc yn well, ymgysylltodd y Tasglu Hawliau Pobl Anabl â sampl o ysgolion gwirfoddol; Ysgol Tŷ Coch - ysgol arbennig i blant 3-19 oed ym Mhontypridd, Ysgol y Deri - ysgol arbennig i blant 3-19 oed ym Mhenarth, Ysgol Greenfields - ysgol arbennig i blant 3-19 oed ym Merthyr Tudful, i gofnodi safbwyntiau plant a phobl ifanc eu hunain ar anabledd ac amhariadau.

Rydym wedi gweithio gyda'r corff trosfwaol cenedlaethol, Plant yng Nghymru, i gynnal sesiwn gyda Fforwm Cymru Ifanc yn ei ddigwyddiad preswyl ar waith y Tasglu Hawliau Pobl Anabl. Trafododd y grŵp y rhwystrau a'r heriau y gallai plant a phobl ifanc anabl eu hwynebu gartref, mewn ysgolion, ac yn y gymuned.

Yn ogystal, mae un o gadeiryddion ein Gweithgor Plant a Phobl Ifanc yn berson ifanc anabl sydd wedi graddio o'r brifysgol yn ddiweddar. Gwnaed y penderfyniad hwn i sicrhau bod lleisiau a phrofiadau pobl ifanc anabl yn cael eu clywed a'u cynrychioli'n ystyrlon.

**3. Dadansoddi'r dystiolaeth ac asesu'r effaith**

- Gan ddefnyddio'r dystiolaeth rydych wedi'i chasglu, pa effaith mae'ch polisi'n debygol o'i chael ar blant a phobl ifanc? Pa gamau fyddwch chi'n eu cymryd i liniaru a/neu leihau unrhyw effeithiau negyddol?

Bydd yr effaith ar blant a phobl ifanc anabl yn gadarnhaol. Bwriedir i'r camau gweithredu gael effaith gadarnhaol ar blant a phobl ifanc anabl, gan arwain at lai o blant a phobl ifanc anabl yn cael eu gwthio i'r cyrion, a fydd yn y pen draw yn lliniaru canlyniadau a pherthnasoedd negyddol mewn cymdeithas.

- Sut mae'ch cynnig yn gwella neu'n herio hawliau plant, fel y nodir yn erthyglau Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a'i Brotocolau Dewisol? Trowch at yr erthyglau i weld pa rai sy'n berthnasol i'ch polisi eich hun.

| **Erthyglau Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn neu Brotocol Dewisol** | **Yn gwella (X)** | **Heriau (X)** | **Esboniad** |
|---|---|---|---|
| *Erthygl 1-6* | X | | Mae Llywodraeth Cymru yn rhoi sylw i'r erthyglau hyn wrth fwrw ymlaen â'r cynigion polisi. Bydd y camau gweithredu yn y cynllun hwn yn sicrhau bod pobl ifanc anabl yn ymwybodol o'u hawliau a'u cyfrifoldebau. |
| *Erthygl 12* | X | | Mae gan blant yr hawl i ddweud beth ddylai ddigwydd pan fydd oedolion yn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | arnynt, ac i gael rhywun i ystyried eu barn. |
| *Erthygl 28 a 29* | X | | Mae gan blant yr hawl i addysg. Dylai addysg ddatblygu anghenion a phersonoliaeth a thalent pob plentyn i'r eithaf.<br><br>Mae nifer o gamau gweithredu yn y cynllun sy'n cefnogi dysgu a datblygiad plant a phobl ifanc anabl, gyda'r nod o sicrhau bod plant anabl yn gallu cyflawni eu potensial yn llawn. |
| *Erthygl 31* | X | | Mae gan bob plentyn hawl i ymlacio a chwarae ac ymuno mewn amrywiaeth eang o weithgareddau. Mae camau gweithredu i gefnogi'r hawl hon: drwy sicrhau bod plant Byddar yn cael mynediad cyfartal at ddarpariaeth addysg, gan gynnwys nifer digonol o athrawon sydd wedi'u hyfforddi mewn Iaith Arwyddion Prydain (BSL) yn y blynyddoedd cynnar. Sicrhau nad yw plant byddar yn cael eu hamddifadu o amrywiaeth eang o weithgareddau ac yn tanberfformio oherwydd diffyg cyfathrebu rhwng cyfoedion a disgyblion. Yn ogystal, cefnogi mynediad plant at ofal plant a chyfleoedd chwarae. |

Bydd yr ymgynghoriad ar y Cynllun Hawliau Pobl Anabl yn dechrau yn gynnar yn y gwanwyn. Byddwn yn mynd ati'n weithredol i gynnwys plant a phobl ifanc anabl i gasglu eu safbwyntiau drwy weithio gyda Plant yng Nghymru, gan sicrhau bod lleisiau plant anabl yn cael eu clywed ar ein cynigion. Bydd eu mewnbwn yn siapio ein penderfyniadau o fewn y cynllun.

**Monitro ac Adolygu**

Byddwn yn sefydlu Bwrdd Cynghori Allanol i ddarparu cyngor a chymorth ynghylch gweithredu, cyflawni ac effaith y Cynllun Hawliau Pobl Anabl. Mae Uned Tystiolaeth Gwahaniaethau ar Sail Anabledd Llywodraeth Cymru hefyd wedi nodi sut byddwn yn

monitro canlyniadau’r cynllun hwn, er mwyn sicrhau rhagor o dryloywder ynghylch ein cynnydd tuag at gyflawni ein huchelgais, a rhoi gwybod i ni’n gynnar os bydd bylchau’n ymddangos, er mwyn i ni allu gweithredu. Mae’r Cynllun hwn yn weledigaeth deng mlynedd, sy’n ymateb i’r hyn rydym ni’n ei ddysgu dros amser. Byddwn yn parhau i weithio’n agos gyda phobl anabl a’u sefydliadau, yn ogystal â phartneriaid eraill, i fonitro ac adolygu ein camau gweithredu a’n heffaith.